Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Garreglefn
# Garreglefn
# Amlwch
# Ynys Mon
# LL68 0PH

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymuned Carreglefn, sydd wedi ei lleoli yng Ngogledd Môn, yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Yn ogystal, daw nifer fechan o ddisgyblion o'r ardal ehangach. Derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor cyn eu pedwerydd pen-blwydd. Yn ystod yr arolygiad roedd 42 o ddisgyblion rhwng 4-11 oed ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddau o athrawon amser llawn ac un athro ran amser.

Ystyrir y disgyblion a ddaw i'r ysgol fel rhai o gefndiroedd sydd heb fod yn freintiedig nac ychwaith yn ddifreintiedig. Daw tri chwarter ohonynt o aelwydydd Cymraeg. Mae dau blentyn o gefndir ethnig.

Mae'r ganran o ddisgyblion (13%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn a Chymru. Mae chwech (14%) o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, gyda dau (5%) ar ddatganiad. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Tachwedd 2009.

Mae'r gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Garreglefn yn 2011-2012 yn £4,144. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £6,563 a'r lleiafswm yw £2,636. Mae Ysgol Carreglefn yn nawfed allan o'r 50 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Carreglefn yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- lefelau cymhelliant bron bob un ohonynt yn uchel;
- y profiadau dysgu yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion;
- yr ethos cynhwysol, cartrefol yn cyfrannu'n effeithiol at lefelau presenoldeb ac ymddygiad uchel iawn; a bod
- yr holl staff yn cydweithio'n hwylus ac effeithiol mewn ffordd sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad y disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn rhoi ffocws clir i gyfeiriad strategol yr ysgol;
- blaenoriaethau addas sydd yn rhoi sylw amlwg ar wella safonau;
- cylch monitro addas wedi ei sefydlu ar gyfer y dyfodol fydd yn edrych yn fanwl ar sawl agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol; a bod
- y corff llywodraethol yn gefnogol ac yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 sicrhau fod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A2 codi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith;

A3 sicrhau gweithgareddau fydd yn ymestyn yn llawn disgyblion o bob gallu;

A4 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain; a

A5 sicrhau fod cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu, y cynllun datblygu ysgol a thargedau ar gyfer gwella safonau'r disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar y cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyfran y disgyblion saith mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion yn ystod y tair mlynedd diwethaf. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl yn amrywio. Mae ymhlith y 25% isaf mewn tair o'r blynyddoedd hynny ac yn y 25% uchaf yn y ddwy flynedd arall.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion 11 mlwydd oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Yn 2011, cyflawnodd pob plentyn y lefel ddisgwyliedig ym mhob pwnc craidd. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn dwy o'r pedair blynedd flaenorol.

Yn y ddau gyfnod allweddol mae canran y disgyblion sy'n cyflawni ar y lefel uwch wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel uwch yn y Gymraeg yn cymharu'n dda gydag ysgolion y teulu ond yn tueddu i fod yn is na'r teulu a chyfartaledd Cymru yn y pynciau eraill.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Fe welir y cynnydd da hwn yng nghyflawniad disgyblion yn eu gwaith, eu llyfrau ac mewn gwersi. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae bron bob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n rhydd ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r ddwy iaith yn rhugl ac effeithiol i drin a thrafod yn hyderus amrywiol bynciau. Enghraifft nodedig o hyn yw gallu tîm cynllunio i drafod yn wybodus iawn eu gwaith ar brosiect Fformwla 1.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Mae llawer sydd â'u hoed darllen yn uwch na'r disgwyliadau. Mae mwyafrif disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn darllen testunau syml yn gynyddol hyderus a chywir gan ddefnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol ac

yn ymddiddori mewn llyfrau. Maent yn darllen ystod dda o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i gyflwyno'r wybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu i sawl pwrpas. Erbyn diwedd y cyfnod mae eu gwaith yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu. Mae gwaith llawer o'r disgyblion hŷn yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn pynciau eraill, gan wneud defnydd cynyddol o dermau arbenigol. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o waith estynedig yn y ddwy iaith.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae lefelau cymhelliant bron bob un o'r disgyblion yn uchel ac maent yn ymroi yn frwdfrydig i'r gweithgareddau dysgu. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain. Lleiafrif sydd â'r hyder a'r gallu i werthuso eu gwaith eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Mae lefelau presenoldeb yn ardderchog ac yn gyson uwch nag ysgolion tebyg.

Mae'r cyngor ysgol yn flaengar yn y modd y mae'n gweithredu fel fforwm. Mae'r aelodau yn trafod yn aeddfed ystod eang o faterion ac yn cyfrannu'n gyson at benderfyniadau. Trwy ystod o weithgareddau y tu mewn a thu allan i'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd. Mae'r rhai hŷn yn ehangu eu dealltwriaeth o fyd gwaith trwy fod yn gyfrifol am y siop ffrwythau a'u hymroddiad i'r prosiect Formula 1 llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu diddorol y tu fewn a thu allan i'r ysgol, sydd ar y cyfan yn ymateb i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r profiadau dysgu yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu ond nid yw'r cynlluniau gwaith yn cynnig arweiniad digon clir i sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu strwythredig drwy

weithgareddau a gychwynnir gan y plentyn a'r rhai dan gyfarwyddyd oedolion. Mae'r profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol ac yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Nid yw'r cynllunio bob amser yn herio disgyblion uwch eu gallu.

Rhoddir lle amlwg i ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion.

Mae darpariaeth fuddiol ar gyfer datblygu medrau llafar a darllen disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu yn gymwys ac fe geir amrywiaeth o gyfleoedd mewn sawl maes. Serch hynny nid yw'r ddarpariaeth yr un mor llwyddiannus ar gyfer sicrhau datblygiad ysgrifennu estynedig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus.

Sicrha'r ysgol fod y disgyblion yn derbyn cyfleoedd da i ymestyn eu gwybodaeth o faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau diwylliannol ac elusennol.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas ofalgar yn bodoli rhwng yr athrawon a'u disgyblion ac mae ethos cefnogol yn amlwg yn y ddau ddosbarth. Mae hyn yn sicrhau fod bron bob un o'r disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol a rhoddir sylw penodol yn y gwersi i ddatblygu'r medrau allweddol. Yn y rhan fwyaf o wersi mae cynllunio bwriadus a chwestiynu medrus. Mae cymorth oedolion wedi'i ffocysu'n glir ac yn cyfrannu'n dda at ansawdd y profiadau a gaiff disgyblion. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol nid yw'r deilliannau dysgu bob amser yn glir i'r disgyblion ac nid oes digon o her i'r gwahanol alluoedd o fewn y dosbarth.

Mae'r drefn o asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda. Gosodir meini prawf llwyddiant clir ac mae hyn yn sicrhau fod disgyblion yn gynyddol ymwybodol o'r disgwyliadau o fewn y gwersi. Mae'r athrawon yn cynnig adborth cynhaliol yn ystod gwersi ac mae marcio gwaith disgyblion yn drwyadl. Nid yw'r sylwadau bob amser yn nodi'r hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud er mwyn gwella.

Gwneir defnydd medrus o ddeilliannau profion safonol i sicrhau cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol. Mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd da o system tracio cynnydd ac mae'r gweithdrefnau cymedroli o fewn yr ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr ysgol yn asesu'r disgyblion yn gywir.

Mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo manteision byw yn iach ar draws y cwricwlwm ac i ddatblygu ffitrwydd disgyblion. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol gan weithgareddau y tu allan i'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda. Hyrwyddir datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol iawn a cheir cyfnodau myfyriol buddiol yn ystod cyd-addoli ac amser cylch.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol gwerthfawr ar faterion addysgol a lles gan gynnwys cymorth proffesiynol buddiol pan fo angen. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion hyn. Enghraifft dda o hyn yw cyfoethogi medrau cymhorthydd mewn ymateb i anghenion disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae athrawon yn ymateb yn brydlon i bryderon ac yn sicrhau darpariaeth addas ar gyfer y disgyblion hyn. Mae cynlluniau addysg unigol yn cael eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol a gwneir defnydd da o asiantaethau allanol arbenigol yn ôl y galw.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae yma ethos cartrefol, croesawgar ac mae'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda. Rhoddir pwyslais da ar sicrhau cyfle cyfartal ac mae mynediad i gwricwlwm eang ar gael i'r holl ddysgwyr.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio amgylchiadau byw mewn gwledydd tramor. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion, trwy'r cyngor ysgol, yn noddi addysg disgybl yn un o wledydd Affrica.

Rhoddir sylw arbennig i anghenion personol ac emosiynol y disgyblion ac fe'u hanogir yn gyson i ddangos gofal a pharch tuag at ei gilydd.

Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer nifer y disgyblion. Gwneir y defnydd gorau o'r adeilad a'r tir. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd effeithiol a wneir o'r adran gymunedol i sicrhau gwersi addysg gorfforol o safon uchel. Mae'r ardal allanol o flaen yr ysgol wedi ei datblygu yn ddychmygus iawn ac yn cynnig amgylchedd deniadol i'r disgyblion ddysgu a chwarae.

Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn cyfoethogi ac yn ysgogi dysgu ac addysgu yn llwyddiannus. Ceir amrywiaeth da o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer chwarae a dysgu. Parhau i ddatblygu mae'r defnydd o'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth, sydd yn gymharol newydd i'r ysgol, yn dechrau rhoi ffocws clir i gyfeiriad strategol yr ysgol ac mae wedi nodi blaenoriaethau addas sy'n rhoi sylw

amlwg ar wella safonau.  Mae'r ysgol yn gymuned drefnus, ac mae ei strwythurau, a'i pholisïau yn glir.

Mae aelodau'r staff ar bob lefel yn glir ynghylch eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn rhannu gweledigaeth a gwerthoedd cyffredin yn effeithiol.  Maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu gynhwysol. Adlewyrchir hyn yn yr ethos cadarnhaol ar draws yr ysgol sy'n cael effaith dda ar gyflawniad y disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle a chaiff aelodau'r staff bob cyfle i gaffael medrau newydd.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg.  Maent yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data ac o adroddiad hunanarfarnu'r ysgol.  Maent yn gefnogol ac wedi sicrhau fod y gofynion statudol yn cael eu bodloni.  Fodd bynnag, nid ydynt eto yn monitro perfformiad yr ysgol yn ddigon manwl i gefnogi a herio disgwyliadau'r ysgol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'r angen i wella medrau cyfathrebu'r disgyblion.  Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael sylw teilwng.  Hyrwyddir dwyieithrwydd yn llwyddiannus ac fe roddir sylw da i lais y plentyn ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn datblygu'n briodol ac mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cyfleu darlun gonest o sefyllfa gyfredol yr ysgol. Mae tueddiad yn yr adroddiad i orddisgrifio yn hytrach na bod yr arfarnol.

Mae dadansoddiad o ddata ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn rhoi darlun clir o ba mor dda mae'r disgyblion yn cyflawni.  Serch hynny, nid yw'r dadansoddiad mor effeithiol wrth adnabod yr hyn sydd ei angen i godi safonau'r disgyblion ymhellach.

Mae holl aelodau'r staff yn chwarae rhan weithredol yn yr arfarnu gan ystyried sawl ffynhonnell o dystiolaeth.

Rhoddir cyfleoedd cyson i'r disgyblion fynegi barn am yr ysgol a gwnânt hyn gydag aeddfedrwydd amlwg.  Nid yw rôl y rhieni na'r llywodraethwyr wedi ei datblygu cystal.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant wedi eu ffocysu'n briodol ar wella safonau ond nid yw'r meini prawf llwyddiant na'r camau gweithredol yn ddigon miniog i sicrhau cynnydd.  Nid yw'r cyswllt rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau yn y cynllun datblygu bob amser yn glir.

Mae cyfleoedd rheolaidd ac addas i alluogi staff i ddatblygu a rhannu ei gwybodaeth broffesiynol.  Newydd ei sefydlu mae'r gymuned ddysgu broffesiynol rhwng clwstwr o ysgolion lleol ac nid yw eto'n weithredol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda ystod a bartneriaid sy'n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill, gan gynnwys cysylltiadau trosglwyddo rhwng y cylch meithrin a'r ysgol, yn effeithiol. Serch hynny, mae ychydig o rieni yn teimlo nad yw ansawdd y cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref cystal ag y gallai fod.

Mae'r gymdeithas rieni ac athrawon yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau ac yn codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol.

Mae cynlluniau trosglwyddo y cytunodd y clwstwr o ysgolion a'r ysgol uwchradd leol iddynt yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae cysylltiadau defnyddiol yn bodoli gyda choleg lleol a darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n dda i agweddau ymarferol yr hyfforddiant. Mae'r prosiect Fformwla 1 mewn cysylltiad â Phrifysgol Bangor yn enghraifft ragorol o lwyddiant disgyblion blwyddyn 5 a 6 mewn gwaith peirianneg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae'r holl staff yn cydweithio yn llwyddiannus ac fe wneir defnydd gwerthfawr o'u harbenigedd. Cefnogir y staff addysgu gan dîm effeithiol o gymorthyddion. Maent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r disgyblion.

Fe wneir defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae ystod ddefnyddiol o adnoddau priodol i gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae'r adeilad, gan gynnwys yr ardaloedd allanol, yn cynnig amgylchedd dysgu deniadol a diogel. Heblaw am yr estyniad ar gyfer gweithgareddau cymunedol, braidd yn gyfyng yw'r gofod yng ngweddill yr ysgol. Serch hynny, gwneir defnydd da ohono.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus, gyda symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu blaenoriaethau'r cynllun datblygu.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

**Cyfnod allweddol 1**

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn is na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn hefyd yn wir hefyd am lafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Yn 2011 cyflawnodd pob disgybl y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl yn amrywio. Mae ymhlith y 25% isaf mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf ac yn y 25% uchaf yn y ddwy flynedd arall.

Mae'r niferoedd sy'n cyflawni lefel 3 neu uwch, wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel uwch yn y Gymraeg yn cymharu'n dda gydag ysgolion y teulu ond yn tueddu i fod yn is na'r teulu a chyfartaledd Cymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Ni chyflawnodd unrhyw blentyn lefel uwch na'r disgwyl mewn gwyddoniaeth yn y ddwy flynedd diwethaf.

**Cyfnod allweddol 2**

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gyffredinol wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf.

Yn 2011 cyflawnodd pob plentyn y lefel ddisgwyliedig ym mhob pwnc craidd. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn dwy o'r pedair blynedd flaenorol.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ond ychydig yn is mewn Saesneg.

Dros gyfnod o bum mlynedd mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn y Gymraeg yn cymharu'r da gyda ffigyrau'r teulu a Chymru. Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yn y ddau gyfnod allweddol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rhiant/gofalwyr

Daeth 16 o ymatebion i law. Mae rhan fwyaf a ymatebodd yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac o'r farn ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Mae pob un o'r farn fod ei blentyn yn teimlo'n ddiogel. Cred bron bob un bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn hapus yno. Mae rhan fwyaf yn datgan fod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol a'u bod ac yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae bob rhiant yn cytuno fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Maent hefyd yn cytuno fod yr athrawon yn annog y plant i weithio'n galed ac yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae llawer yn credu fod yr addysgu yn dda ac yn hapus â'r cynnydd a wna eu plant. Serch hynny mae lleiafrif yn teimlo nad ydynt yn cael cymorth ychwanegol priodol ac nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei wneud yn yr ysgol.

Er bod bron pob un yn hapus â'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd eu plentyn, mae lleiafrif yn dweud nad ydynt yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn, gwneud awgrym neu nodi problem ac nad ydynt yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (18 disgybl). Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cytuno gyda'r datganiadau yn yr holiadur i gyd. Serch hynny mae un disgybl yn dweud nad yw'n gwneud yn dda yn yr ysgol ac un nad yw'n yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydyw'n poeni neu'n gofidio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Merfyn Lloyd Jones | Arolygydd Tîm |
| Richard Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhys Hearn | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.